

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea, J.M Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuencid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), R.M. Birch (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), G.D.D. Carroll, C.P. Franks, E. Goodjohn, J. Protheroe, S. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

701 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

702 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru).

703 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

704 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

705 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O LEOLIADAU GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar 6 Rhagfyr, 2022, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Rheolwr Gweithredol Plant sy'n Derbyn Gofal.

Ar ôl y cyflwyniad, rhoddodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant, y Pennaeth Safonau a Darpariaeth a'r Rheolwr Gweithredol Plant sy'n Derbyn Gofal yr wybodaeth ganlynol mewn ymateb i ymholiadau a sylwadau'r Pwyllgor:

- Roedd gan Blant sy'n Derbyn Gofal ystod eang o anghenion, ac roeddent yn derbyn cymorth mewn addysg drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ysgol rithiol, cyfarfodydd chwarterol i fonitro presenoldeb a phryderon dulliau o roi adborth a chanmoliaeth i blant;
- Roedd llawer o gydweithredu'n digwydd rhwng Cyfarwyddiaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu a Sgiliau er mwyn sicrhau'r amrywiaeth o gymorth;
- Gan adlewyrchu'r twf yn y boblogaeth sy'n Derbyn Gofal, bu twf hefyd mewn Anghenion Addysgol Cymhleth a phroblemau iechyd meddwl ymhlith plant;
- Roedd y cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn caniatáu i PDG aros yn ei leoliad nes iddo droi'n 25 oed, a phan fyddai'n fwy parod i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, roedd hyn yn amharu ar nifer y lleoliadau a oedd ar gael i blant iau, felly roedd angen cynyddu'r gronfa o Ofalwyr Maeth yn barhaus;
- Ni fu erioed gynifer o PDG ac roedd y duedd honno'n parhau. Fodd bynnag, roedd y Gwasanaethau Plant yn gweithio i geisio osgoi cynnydd dramatig;
- Gofal gan berthnasau oedd y dewis gorau, waeth faint o leoliadau maeth a oedd ar gael, gan fod hynny'n creu canlyniadau gwell i'r plentyn.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r adroddiad eglurhaol cyfeiriol a'r adroddiad atodol a oedd yn cynnwys Adolygiad Blynyddol o Leoliadau Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bro Morgannwg (Atodiad 1).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig i oruchwylio'r swyddogaeth statudol allweddol a materion sy'n ymwneud â meysydd portffolio'r Pwyllgor.

706 PECYN CYMORTH CYNHWYSIANT TRAWSRYWIOL DRAFFT A DOGFEN GANLLAW AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 19 Ionawr 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Swyddog Diogelu, a ddywedodd y byddai'r cynnod ymgynghori'n cael ei ymestyn am wythnos arall yn dilyn oedi cyn cyhoeddi gwybodaeth yr ymgynghoriad.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at y cyflwyniad ysgrifenedig a gafwyd ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda.

Ar ôl y cyflwyniad, gwahoddodd y Cadeirydd Ms. Jess Day, aelod o'r cyhoedd, i gyflwyno sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor. Dyma grynodedb ohonynt:

- Roedd Ms. Day yn cyfrannu sylwadau ar ran grŵp o rieni a oedd yn croesawu agweddau ar y Pecyn Cymorth Drafft, ee rhoi arweiniad i ysgolion a diogelu plant a nodir yn drawsryweddol, adlewyrchiad cywir o gyfraith cydraddoldeb, herio stereoteipiau rhyw a chydabod yr angen i barchu hawliau plant eraill.
- Fodd bynnag, roedd y grŵp yn pryderu y gallai mynediad at gyfleusterau neu weithgareddau wedi'u neilltuo i'r rhyw arall ddigwydd fesul achos, o ganlyniad i gynnwys y Pecyn Cymorth.
- Roedd rheolau ynghylch gwahanu'r rhywiau mewn ysgolion yn sicrhau diogelwch, urddas a phreifatrwydd plant, ac ni ddylai neb fod yn esempt o'r rheolau ar gyfer diogelu.
- Roedd asesu risg plant y alluogi penderfyniadau fesul achos yn annheg o safbwynt staff yr ysgol ac o safbwynt y plant a oedd yn destun yr asesiadau.
- Nid oedd yn anodd rhagweld canlyniadau gwael yn sgil darpariaeth rhyw cymysg, fel amharodrydd i gymryd rhan, anafiadau chwaraeon a beichiogi yn yr ardegau, a'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am hynny.
- Roedd y grŵp yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu argymell y dylai'r holl awgrymiadau ynghylch mynediad i gyfleusterau'r rhyw arall fesul achos gael eu dileu o'r Pecyn Cymorth, er mwyn diogelu plant a sicrhau na fyddai ysgolion a'r Cyngor yn wynebu risg gyfreithiol sylweddol.

Cafwyd sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn sylwadau Ms. Day. Dyma grynodedb ohonynt:

- Mynegodd y Cadeirydd siom ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad a gobeithiai y byddai pob ymgynghoriad yn y dyfodol yn ymddangos ar-lein yn brydlon;
- Roedd yr Is-gadeirydd a'r Aelodau eraill yn croesawu'r Pecyn Cymorth fel canllaw i addysgwyr gefnogi pob plentyn, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn eu hystyried eu hunain yn drawsryweddol, gan fod y plant hynny'n aml yn agored iawn i niwed, ac yn cael eu gwthio i gyrion cymdeithas.
- Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at ba mor eang yr oedd materion hunaniaeth drawsryweddol, a'r modd yr oedd pobl ifanc yn mynd i'r afael â'r mater yn weddol lwyddiannus.

Yn dilyn hynny, rhoddodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant a'r Swyddog Diogelu yr wybodaeth ganlynol mewn ymateb i gwestiynau Aelodau'r Pwyllgor:

- Gellid cynnwys mwy o bwyslais ar iechyd meddwl fel anabledd yn Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Pecyn Cymorth;
- Camgymeriad gweinyddol oedd wrth wraidd yr oedi cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Roedd strwythur ffurfiol ar waith i sicrhau ymgynghori ag ysgolion a rhieni. Roedd tua 150 o ymatebion wedi dod i law hyd yma, ac

roedd ymatebion pellach yn cael eu ceisio gan weithwyr proffesiynol yn enwedig.

Mynegodd y Cyngorydd Godfrey wedyn bryder ynghylch y Pecyn Cymorth a dywedodd y byddai'n well ganddyn nhw drafod materion o'r fath wedi i blant dyfu'n hŷn, oherwydd y pwysau a oedd eisoes ar blant ac ysgolion. I'r gwrthwyneb, mynegodd y Cyngorydd Marshallsea y safbwynt bod angen ymyriad a chefnogaeth o'r fath yn fuan, er mwyn helpu i atal unrhyw niwed i blant cyn iddynt droi'n oedolion.

Gyda chaniatâd i siarad, tynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg sylw at y ffaith bod y Pecyn Cymorth yn cael ei ddarparu mewn ymateb i geisiadau am arweiniad a chefnogaeth gan ysgolion a phobl ifanc.

Wedi hynny, rhoddodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant a'r Swyddog Diogelu yr wybodaeth ganlynol mewn ymateb i sylwadau ac ymholiadau gan yr Aelodau:

- Roedd ffocws y Pecyn Cymorth ar ystyried anghenion yr unigolyn fesul achos yn adlewyrchu'r ystod o anghenion o fewn y gymuned drawsryweddol, a chymhlethdod y mater. Roedd staff ysgol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau wedi'u harfogi a'u cefnogi i wneud hynny;
- Dogfen ganllaw oedd y Pecyn Cymorth yn hytrach na chyfres o reolau gorfodol yr oedd yn rhaid i ysgolion gadw atynt.;
- Er bod rhieni'n cael eu cynnwys yn y broses, y plentyn yn y pen draw fyddai'n penderfynu pa ragenwau i'w dewis, gan mai hawl y plentyn oedd hynny, ar yr amod bod y plentyn yn gallu deall y penderfyniad hwnnw a'r goblygiadau posibl.

Gyda chaniatâd i siarad, gofynnodd y Cyngorydd Carroll wedyn i'r Pwyllgor beidio cymeradwyo'r Pecyn Cymorth, gan fynegi pryderon yn ei gylch. Dyma grynodedd o'r pryderon hynny:

- Mynediad i doiledau un rhyw gan aelodau o'r rhyw arall
- Mynediad i ystafelloedd newid un rhyw gan aelodau o'r rhyw arall - awgrymwyd y dylid creu cyfleusterau ar wahân ar gyfer plant a oedd yn eu hystyried eu hunain yn drawsryweddol;
- Roedd angen rhagor o fanylder, eglurder a drafftio pellach, er enghraifft mewn adrannau'n gysylltiedig â dillad nofio a materion diogelu, er mwyn osgoi problemau i ysgolion a disgyblion.

Gyda chaniatâd i siarad, cododd y Cyngorydd Wood bryderon. Dyma grynodedd ohonynt:

- Yr amwysedd yng nghynnwys y Pecyn Cymorth;
- Y ffaith bod staff ysgol eisoes o dan bwysau uchel;
- Effaith materion hunaniaeth drawsryweddol ar gymuned gyfan yr ysgol, a'r angen i ddiogelu'r holl ddisgyblion hynny yr oedd hyn yn effeithio arnynt.

Gyda chaniatâd i siarad, tynnodd y Cyngorydd Protheroe sylw at y diffyg dealltwriaeth ynghylch materion trawsryweddol mewn cymdeithas, ac roedd yn croesawu'r Pecyn Cymorth fel ffordd o gefnogi a chynnwys y plant yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn llawn.

Ar ôl hynny, ailbwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyfeirio i'r Pecyn Cymorth, dull mwy rhagnodol yn fwy tebygol o achosi anawsterau.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Hodges fod yr ysgolion wedi gofyn am y Pecyn Cymorth er mwyn cael canllaw, a dywedodd fod gan yr ysgolion y gallu i ymdrin â'r materion dan sylw ar hyn o bryd, ac wrth i negeseuon y Pecyn Cymorth esblygu yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd swyddogion yn fodlon â statws cyfreithiol y Pecyn Cymorth, a dywedodd y Swyddog Diogelu fod y Pecyn Cymorth drafft wedi bod yn destun dau adolygiad cyfreithiol lle nodwyd sawl mater, a oedd yn ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.

Wedi ystyried y mater yn llawn, galwyd pleidlais ynghylch a ddylid cymeradwyo drafft y Pecyn Cymorth. Cariwyd hynny drwy 10 pleidlais yn erbyn 3 gydag 1 yn ymatal, ac wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cyfeirnod Cabinet ac adroddiad atodol y Cabinet mewn perthynas â'r Pecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsrywiol Drafft a'r Ddogfen Arweiniad ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill.

(2) CYMERADWYO'r Pecyn Cymorth Ysgolion Cynhwysiant Drafft, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor yn Atodiad A.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig, er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor ar y cynnig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ffurfiol.

707 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Rheolwr Cymorth Cyllid. Ar ôl cyflwyniad y swyddog, dywedodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant, mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, y gallai cost darpariaeth yn Ysgol y Deri gynyddu yn sgil newidiadau demograffig. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid mai nod y Strategaeth Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) oedd rhoi cyfrif am y posibilrwydd hwnnw o newid yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Gynrychiolydd Cyfetholedig yr Eglwys Gatholig Rufeinig, dywedodd y Pennaeth Cyllid fod disgwyl i ysgolion gyda'i gilydd ganfod cyfanswm o £2m mewn arbedion effeithlonrwydd, er mwyn helpu i lenwi'r bwlch cyllido nad oedd wedi'i gynnwys yn y setliad gwell gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn seiliedig ar Gyllideb ddrafft a oedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a byddai hyn yn golygu y byddai ysgolion yn derbyn swm targed llai o gyllid gan y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd Penn yn croesawu'r ffaith bod cronfeydd wrth gefn wedi cronni, a'r defnydd a gynigiwyd ohonynt. Byddent nawr yn helpu ysgolion i ymdopi â chynnydd sylweddol mewn costau fel ynni.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd unrhyw oblygiadau i'r gyllideb arfaethedig ar gyfer prosiect Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod cam nesaf y prosiect yn cael ei ddylunio ar hyn o bryd, a bod maint a chwmpas y prosiect yn cael ei ystyried, ac mai'r cam cychwynnol oedd gosod ysgolion y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth ar sail eu cyflwr a'u haddasrwydd.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chyllideb Ymgynghori 2023/24 a Diweddariad Pellach o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet i sicrhau bod tybiaethau cyllid ac arbedion yn cael eu dilysu a bod cynigion arbedion yn realistig ac yn gyflawnadwy ac nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol.

708 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Cabinet dyddiedig 19 Ionawr, 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Cymorth Ariannol. Yn dilyn cyflwyniad y swyddog eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y cynnod ymgynghori ar gyfer y cynigion wedi'i ymestyn am ddiwrnod, yn unol â'r dyddiadau a ddarparwyd mewn gwybodaeth ar-lein.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chynigion Rhaglen Gyfalaf Drafft 2023/24 i 2027/28.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad i ystyried y cynigion drafft mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i 2027/28.

709 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU
ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Cabinet dyddiedig 19 Ionawr, 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Cymorth Ariannol.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig Bro Morgannwg ar gyfer 2023/2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet ar y newidiadau arfaethedig yn y taliadau gwasanaeth ar gyfer swyddogaethau a reolir gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

710 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 TACHWEDD
2022. (CDS) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill - 30 Tachwedd 2022. Fe'i cyflwynwyd gan y Rheolwr Cymorth Cyllid. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Roedd Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth, o gymeradwyaeth y Cyngor ar 7 Mawrth hyd 30 Tachwedd, 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau a geiswyd o fewn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a Rhaglenni Cyfalaf y blynyddoedd i ddod.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ailbeiriannu neu aildendro cynllun, gan achosi oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn dweud bod angen disgwyl y hir am ddeunyddiau, a bod prinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi mai cost y Rhaglen gymeradwy gyfredol oedd £90.413m, ond roedd hi'n bwysig nodi bod hynny'n annhebygol o gael ei gyflawni, a gofynnwyd am lithriant o £2.369m. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos yn rhan o'r trefniadau i fonitro prosiectau'n rheolaidd ar y cyd â rheolwyr prosiect a noddwyr. Byddai lithriant pellach yn cael ei adrodd yn yr adroddiadau nesaf.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) NODI'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r Blynyddoedd i'r Dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf.
- (2) Hysbysu'r Pwyllgor am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.
- (3) Hysbysu'r Pwyllgor am ddefnyddio Pwerau Argyfwng.
- (4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

711 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid a ddywedodd y byddai sefyllfa'r refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor, yn weithredol ac yn ariannol, oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19 a'r Argyfwng Costau Byw.

Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y setliad dyfarniad cyflog diweddar, chwyddiant yn gyffredinol, yn enwedig mewn meysydd fel trafndiaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio. Roedd pwysau chwyddiant a'r galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ar hyn o bryd, roedd y sefyllfa'n gytbwys ar y cyfan, gyda thanwariant yn y Gyllideb Polisi ac arian wedi'i dynnu i lawr o'r cronfeydd gwasanaeth, yn talu am y pwysau ychwanegol ar gyflogau. Fodd bynnag, byddai angen lliniaru'r pwysau ar drafndiaeth ysgol wrth nesáu at ddiwedd y flwyddyn.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i osod ar gyfer y flwyddyn, ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyrraedd eu targedau. Roedd rhai problemau'n parhau yn gysylltiedig â thargedau arbed a oedd heb eu bodloni o'r blynyddoedd cynt.

Roedd amrywiadau andwyol yn cael eu rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau eleni, a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y problemau hyn yn y tymor byr.

Yn ôl y rhagamcanion cyfredol, byddai alldro'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn cynnwys amrywiant anffafriol o £229k ar ôl trosglwyddo £1,090k i mewn o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant ychwanegol a gynlluniwyd.

Mae £601k ychwanegol yn gysylltiedig â Thrafnidiaeth Ysgol a phe na bai'r gwasanaeth yn gallu lliniaru hynny, byddai'r tanwariant a ragamcanwyd mewn Polisi yn talu amdano.

Ysgolion - Rhagwelwyd y byddai alldro'r ysgolion yn cyd-fynd â'r gyllideb refeniw, oherwydd byddai unrhyw amrywiannau naill ai'n cael eu bodloni neu eu cario drosodd drwy gronfeydd wrth gefn yr ysgol. Nodwyd y byddai cost dyfarniadau cyflog 2022/23 yn cael effaith sylweddol ar falansau ysgolion, a bod y costau hyn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r hyn a ganiateir ym mhroses bennu'r gyllideb.

Ar ôl cyflwyniad y swyddog, mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-gadeirydd, dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y dyddiad pan fyddai'r system anfonebu Oracle Fusion yn dod i rym bellach wedi'i wthio'n ôl o 1 Ebrill 2023, ac y byddai adroddiad Cabinet pellach yn cael ei gyflwyno i roi'r newyddion diweddaraf cyn hir.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod pwysau ar gostau trafndiaeth ysgol i raddau helaeth yn deillio o gynnydd ym mhris tanwydd a gyrwyr, a bod cyfleoedd i effeithloni drwy gydweithredu a chaffel o dan ystyriaeth.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Y DYLLID nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwysu'r gorwariant a ragwelir yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) BOD y Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23.
- (2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.
- (3) Addasu'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 ar gyfer symudiadau rhwng Cyfarwyddiaethau.

712 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER 2023/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2022/23 (PW) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu a'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23.

- Tracio Argymhellion 3ydd Chwarter Hydref i Ragfyr 2022 (Atodiad A);
- Diweddaru Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2022/23 (Atodiad B).

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (2) CYMERADWYO'r Rhaglen Rhaglen Gwaith Cychwynnol wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23, sydd ynghlwm yn Atodiad B, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.